

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-2023



Cynghorau Iechyd Cymuned yw llais annibynnol pobl yng Nghymru sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG. Rydym wedi'n ffurfio o wirfoddolwyr lleol sy'n gwrando ar ac yn cynrychioli diddordebau cleifion a'r cyhoedd. Mae 7 o Gyngorau Iechyd Cymuned yn cynrychioli gwahanol rannau o Gymru.

Mae Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned [y Bwrdd] yn bodoli i gefnogi, cynorthwyo, cynghori a rheoli perfformiad y Cynghorau Iechyd Cymuned. Mae'n cynrychioli barn gyfunol y Cynghorau Iechyd Cymuned ledled Cymru.

Gellir cael copi electronig o'r ddogfen hon ar ein gwefan:
<https://baeabertawecic.gig.cymru/>

Mae'r adroddiad hefyd ar gael yn Saesneg. Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni:

**Cyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe
Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cimla Common
Castell-nedd
SA11 3LS**

Ffôn: 01639 683490

Ebost: swanseabay@waleschc.org.uk

Twitter: <https://twitter.com/SwanseabayCHC>

Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol
2. Cyflwyniad
3. Ciplwg ar ein blwyddyn
4. Beth fuom yn ei wneud
5. Sut gyrhaeddodd Safonau'r Gymraeg yn ystod 2022-2023
6. Edrych tua'r dyfodol
7. Atodiadau

Crynodeb gweithredol

Cyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe yw llais pobl sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe sy'n derbyn gwasanaethau iechyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Ein cyfrifoldeb yw clywed gan bobl a defnyddio beth mae pobl yn ei ddweud wrthym er mwyn dylanwadu ar sut mae gwasanaethau iechyd yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn gyson ceisio gwella sut rydym yn clywed gan bobl a rhoi gwybodaeth i bobl, yn enwedig y rhai sydd weithiau yn wynebu rhwystrau pan fônt yn dymuno cael eu clywed.

Croesawom y fframwaith cyfreithiol a gyflwynwyd gan Safonau'r Gymraeg 2019 a'n galluogodd i gwrdd ag anghenion cyfathrebu siaradwyr Cymraeg.

Mae ein pedwerydd Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed wrth gydymffurfio â'r safonau gan sicrhau nad yw siaradwyr Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rheiny sy'n derbyn gwasanaethau yn y Saesneg.

Wrth gydnabod bod ein cydymffurfiaeth wedi gwella llawer, mae Cyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe yn parhau i fod yn llwyr ymroddedig i weithio tuag at gryfhau ymhellach gyflenwad ein dyletswyddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyflwyniad

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol sy'n rhoi dyletswydd ar Fwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru (y Bwrdd) a'r 7 CIC ar hyd a lled Cymru (y Cynghorau Iechyd Cymuned) i gydymffurfio â'r safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Daeth Safonau'r Gymraeg ["y Safonau"] i rym ar gyfer y Bwrdd a'r 7 CIC ar 30 Mai 2019.

Fel 8 corff statudol unigol, mae'r Bwrdd a phob CIC yng Nghymru wedi derbyn eu hysbysiad unigol ei hunain o'r Safonau sy'n berthnasol iddynt, wedi'i bennu gan Gomisiynydd y Gymraeg ac wedi'i selio ar eu hamgylchiadau penodol hwy.

Mae'r ddolen isod yn rhoi manylion y safonau sydd wedi eu rhoi i Gyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe:

Dyma bedwerydd adroddiad Cyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe ar gydymffurfiaeth â'r safonau. Mae'n trafod y cyfnod 01 Ebrill 2022 hyd 31 Mawrth 2023.

Y Prif Swyddog Mwoyo Makuto sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros y Gymraeg yng Nghyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe. Hi sy'n gyfrifol am sicrhau gweithrediad y safonau o ddydd i ddydd.

Mae ein Pwyllgor Gweithredol wedi adolygu a derbyn yr adroddiad hwn.

Cipolwg ar ein blwyddyn

Cwblhaom ein hadroddiadau Safonau'r Gymraeg hanner blwyddyn a blynyddol i dystiolaethu ein cydymffurfiaeth

Diweddarwyd y wefan i sicrhau bod pob gwybodaeth yn ddwyieithog er mwyn cydymffurfio

Mae staff ac aelodau'n parhau i gael cyfleoedd hyfforddiant Cymraeg

Parhaom i ddatblygu ein hamcanion a gweithredoedd cydraddoldeb fel ein bod yn gyson gyda'r gwaith mae angen inni barhau i'w wneud i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg

Beth fuom yn ei wneud

Yn ystod 2022-2023 parhaom i weithio'n agos gyda Chynghorau Iechyd Cymuned eraill ledled Cymru ynghyd â Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein swyddogaethau mandadol yn ddwyieithog.

Ar lefel lleol rydym wedi:

- Parhau i gryfhau ymhellach ein trefniadau cyfieithu ar gyfer dogfennau ysgrifenedig
- Ei gwneud yn ofyniad hanfodol i ddewis iaith aelodau o'r cyhoedd gael ei wirio pan fônt yn cysylltu â'r swyddfa leol am y tro cyntaf am unrhyw gefnogaeth
- Cynnwys Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) ym mhob un o'n hadroddiadau i asesu effaith ein gwaith ar siaradwyr Cymraeg.

Ymdrin â chwynion am y Gymraeg

Mae ein gweithdrefn 'gwneud cwyn amdanom ni' yn amlinellu'r broses ar gyfer ymdrin â chwynion ynglŷn â chydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg. Gallwch gael gwybod mwy trwy ddilyn y ddolen ganlynol



Making a complaint
[about us - CHC Comp]

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2022 hyd 31 Mawrth 2023 ni chawsom unrhyw gwynion mewn perthynas â'r Gymraeg.

Sut rydym wedi cwrdd â gofynion Safonau'r Gymraeg yn 2022-2023

Cynhaliom hunanasesiad o gydymffurfiaeth Cyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe â'r Safonau ar ddechrau'r flwyddyn. Fe wnaethom adolygu ein cydymffurfiaeth yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn gan weithredu i wella lle'r oedd angen. Gwnaethpwyd ein hunanasesiad mwyaf diweddar yn erbyn y safonau ar 15 Chwefror 2023. Mae'r canfyddiadau manwl hyn wedi'u cynnwys yn **Atodiad [2]**. Mae crynodeb o'n hasesiad i'w weld yn y paragraffau canlynol.

Safonau cyflenwi gwasanaeth

Mae'r safonau hyn yn canolbwyntio ar gyflenwi gwasanaeth. Eu nod yw hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg neu sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflenwi gwasanaeth.

Maent yn cynnwys y gwasanaethau Cymraeg rydym yn eu darparu i'r cyhoedd e.e. gwasanaethau dros y teleffon, defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, llythyrau a dogfennau, gwasanaethau ar-lein.

Cyflenwi gwasanaeth	Yn cydymffurfio	Gweithio tuag at	Ddim yn cydymffurfio	Amherthnasol
Nifer o Safonau				
[52]	[50]	[2]	[0]	[0]

Mae ein safonau cyflenwi gwasanaeth yn gofyn i ni gael prosesau gwaith a deunyddiau yn eu lle i gynnig gwasanaeth dwyieithog i bobl pan maent yn gohebu gyda ni trwy lythyrau, e-byst, ar y cyfryngau cymdeithasol neu dros y teleffon.

- Mae ein hadrannau Eiriolaeth, Llywodraethu a PPE yn anfon datganiadau iaith a ffafrir at ein rhanddeiliaid yn flynyddol
- Mae staff yn parhau i gyfarch pobl sy'n ffonio yn ddwyieithog
- Gallwn nawr gynnig cyfieithu ar y pryd rhithwir
- Parhawn i weithredu i recriwtio mwy o aelodau sy'n siaradwyr Cymraeg

Safonau llunio polisi

Mae'r safonau llunio polisi yn gofyn i ni ystyried yr effaith a gaiff ei benderfyniadau polisi ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a'r egwyddor arweiniol na ddylid trin y Gymraeg y llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r safonau hyn yn gofyn i ni wneud y 3 pheth canlynol:

1. ystyried effaith neu ardrawiad ein penderfyniadau polisi ar y Gymraeg (yn gadarnhaol yn ogystal â negyddol);
2. ystyried sut i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, lliniaru neu leihau'r effeithiau negyddol a chymryd pob cyfle i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;
3. ceisio safbwyntiau ar yr effeithiau ar y Gymraeg wrth ymgysylltu neu ymgynghori a cheisio safbwyntiau siaradwyr Cymraeg a defnyddwyr yr iaith.

Llunio polisi	Yn cydymffurfio	Gweithio tuag at	Ddim yn cydymffurfio	Amherthnasol
Nifer o Safonau				
[9]	[9]	[0]	[0]	[0]

Fel rhan o'n Cynlluniau Cydraddoldeb Blynyddol, mae gofynion y Gymraeg yn rhan o'n cydymffurfiaeth. Defnyddiwn Aseiad Effaith

ar Gydraddoldeb (AEG) i ystyried yr effaith gaiff ein penderfyniadau polisi. Mae pob penderfyniad polisi a gyflwynir i'n Pwyllgor Gweithredol yn cynnwys AEG.

Cwblheir AEG ar gyfer pob un o'n prosiectau thematig er mwyn ein galluogi ni i ddeall effaith ein gwaith ar bobl gyda gwahanol anghenion cefnogaeth, gan gynnwys y rhai sy'n ffafrio cyfathrebu yn Gymraeg. Rydym yn gweithredu'n gadarnhaol i edrych ar unrhyw themâu sy'n codi o'n hasesiadau.

Mae CIC Bae Abertawe hefyd yn gwerthuso ei brosiectau thematig i sicrhau bod unrhyw wersi y gellid eu dysgu wrth edrych yn ôl yn cael eu cymryd ymlaen i wella safon ein gwaith gan gynnwys gwella ein gallu i gyrraedd a chlywed gan amrywiaeth wahanol o bobl. Rydym mewn sefyllfa i ymateb yn effeithiol i anghenion siaradwyr Cymraeg.

Safonau gweithredol

Mae'r Safonau hyn yn ymdrin â'r ffordd y mae'r Bwrdd a'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gan weithio tuag at weithle dwyieithog.

Safonau gweithredol	Yn cydymffurfio	Gweithio tuag at	Ddim yn cydymffurfio	Amherthnasol
Nifer o Safonau				
[16]	[16]	[0]	[0]	[0]

Yn ystod 2022-2023, parhaodd Bae Abertawe i gefnogi staff trwy

- Gylchredeg canllawiau interim y Gymraeg
- Ateb y system ffonau yn ddwyieithog

- Annog defnyddio Cysgeir, meddalwedd a osodwyd ar liniaduron y staff i gyd er mwyn gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg
- Mae gan y staff i gyd lofnodion e-bost dwyieithog yn ogystal â negeseuon allan o'r swyddfa dwyieithog
- Parhau i rannu a chylchredeg cyfleoedd hyfforddiant Cymraeg.

Safonau cadw cofnodion

Mae'r Safon hwn yn ymwneud â chadw cofnod o'r nifer o gwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth â'r safonau.

Cadw cofnodion	Yn cydymffurfio	Gweithio tuag at	Ddim yn cydymffurfio	Amherthnasol
Nifer o Safonau				
[1]	[1]	[0]	[0]	[0]

Yn ystod 2022-2023 ni dderbynion unrhyw gwynion mewn perthynas â chydymffurfiaeth â'r safonau.

Sgiliau Cymraeg

Trwy gydol 2022-2023, parhaodd Cyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe i annog a chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg trwy gylchredeg cyfleoedd hyfforddi a dysgu.

Gofynnem i'n staff CIC i hunanasesu eu sgiliau Cymraeg gan ddefnyddio'r fframwaith yn **Atodiad 1**. Dengys y tabl isod y canlyniadau:

MATRICS HUNANASESU GALLU CYMRAEG							
Niferoedd a lefelau staff sy'n siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio yng Nghyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe							
Band cyflog	0	1	2	3	4	5	Cyfanswm
8b	1	0	0	0	0	0	1
7	1	0	0	0	0	0	1
6	4	0	0	0	0	0	4
4	2	0	0	1	1	0	4
3	0	0	0	1	0	0	1
	8	0	0	2	1	0	11

Staff sy'n mynychu cyrsiau Cymraeg

Ar hyn o bryd, does gennym ddim staff yn mynychu cyrsiau Cymraeg.

Mynychodd staff gwrs blasu Cymraeg a gyflwynwyd yn rhithwir gan Brifysgol Abertawe yn ogystal â chwrs hyfforddi Cymraeg Swyddfa yn 2022. Bydd y staff i gyd yn parhau i gael y cyfleoedd i adeiladu ar yr hyfforddiant hwn.

Recriwtio staff

Dengys y tabl isod nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn a oedd yn galw am:

- Sgiliau Cymraeg yn hanfodol
- Sgiliau Cymraeg angen eu dysgu pan benodir
- Sgiliau Cymraeg yn ddymunol
- Sgiliau Cymraeg ddim yn angenrheidiol

Categori	Hysbysebwyd yn fewnol	Hysbysebwyd yn allanol
Hanfodol	1	1
Dysgu pan benodir	0	0
Dymunol	0	0
Dim yn angenrheidiol	0	0
Cyfanswm	1	1

Edrych tua'r dyfodol

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe yn parhau i fod yn llwyr ymroddedig i gynyddu ei gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi hunanasesu ein perfformiad yn erbyn Safonau'r Gymraeg ac rydym yn falch o'r cynnydd wnaed ar gryfhau ein perfformiad i sicrhau nad yw siaradwyr Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau yn Saesneg ac mewn ieithoedd eraill.

Gwnaed cynnydd o ran

- Gwella ein trefniadau cyfieithu
- Bellach yn gallu cynnig cyfieithu ar y pryd yn rhithwir
- Diweddarau ein gwefan er mwyn cydymffurfio.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithio tuag at gydymffurfiaeth lawn yn erbyn safonau'r Gymraeg.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
------	-------	------------------	-----	----------

Atodiad [1]

Offeryn Hunanasesu'r Gymraeg

	GWRANDO / SIARAD	DARLLEN / DEALLTWRIAETH	YSGRIFENNU
LEFEL 0 DIM SGILIAU	<ul style="list-style-type: none"> Dim gallu dirnadwy 	<ul style="list-style-type: none"> Dim gallu dirnadwy 	<ul style="list-style-type: none"> Dim gallu dirnadwy
LEFEL 1 MYNEDIAD	<p>Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ynganu geiriau Cymraeg, enwau llefydd, enwau adrannau, ac ati. Cyfarch a deall cyfarchiad. Defnyddio geiriau bob dydd sylfaenol, e.e. diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi, ac ati. Deall / pasio ymlaen ceisiadau llafar syml o'r math arferol / cyfarwydd / disgwylidig gan ddefnyddio iaith syml, e.e. 'Allai siarad â...' Nodi ceisiadau syml a'u dilyn gyda chwestiynau ychwanegol / ceisiadau mewn modd cyfyngedig 	<p>Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> Deall geiriau allweddol syml a brawddegau ar faterion cyfarwydd / disgwylidig mewn perthynas â fy maes gwaith fy hun e.e. ar arwyddion, mewn llythyrau. 	<p>Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> Llenwi ffurflenni syml, nodi gwybodaeth syml, e.e. dyddiad a lleoliad cyfarfod, cyfeiriad Cymraeg ac ati.
LEFEL 2 SYLFAENOL	<p>Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> Deall hanfod sgysiaid Cymraeg yn y gwaith 	<p>Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> Deall gwybodaeth ffeithiol, arferol a hanfod gwybodaeth 	<p>Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ysgrifennu nodiadau syml / llythyrau / negeseuon ar nifer gyfyngedig o themâu sy'n

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
------	-------	------------------	-----	----------

	<ul style="list-style-type: none"> • Ymateb i geisiadau syml sy'n ymwneud â'r swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol • Gofyn cwestiynau syml a deall ymatebion syml • Mynegi barn mewn ffordd gyfyngedig gyn belled â bod y thema'n gyfarwydd • Deall cyfarwyddiadau pan ddefnyddir iaith syml 	nad yw'n arferol ar faterion cyfarwydd sy'n ymwneud a fy maes gwaith fy hun e.e. mewn llythyrau, pamffledi safonol, ac ati.	berthnasol i fy mhrofiadau personol neu fy maes gwaith fy hun
LEFEL 3 CANOLRADD	<p>Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y rhan fwyaf o'r hyn sy'n cael ei ddweud mewn swyddfa, cyfarfod ac ati. • Ddal sgwrs syml am bwnc yn ymwneud a'r gwaith, ond efallai byddaf angen troi i'r Saesneg i drafod / adrodd ar wybodaeth dechnegol neu gymhleth • Ateb cwestiynau disgwylidig neu ffeithiol • Cymryd a phasio ymlaen y rhan fwyaf o negeseuon sy'n debygol o fod angen sylw • Cynnig cyngor ar faterion syml sy'n ymwneud a'r gwaith 	<p>Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sganio testun am wybodaeth berthnasol • Deall amrywiaeth weddol o ohebiaeth arferol / anarferol yn ymwneud a'r gwaith, taflenni ffeithiol, ac ati pan fo iaith safonol yn cael ei defnyddio. 	<p>Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu llythyr manwl / disgrifiadol yn ymwneud â fy maes gwaith, ond byddaf angen ei wirio gan siaradwr Cymraeg • Wneud nodiadau rhesymol o fanwl tra bod rhywun yn siarad
LEFEL 4	Gallaf:	Gallaf:	Gallaf:

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
------	-------	------------------	-----	----------

<p>UWCH</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal sgwrs anffurfiol estynedig am faterion gwaith neu roi cyflwyniad gyda rhuglder mynegiant ond efallai yn gorfod troi nôl i'r Saesneg er mwyn ateb cwestiynau annisgwyladwy neu esbonio pwyntiau cymhleth neu wybodaeth dechnegol • Cyfrannu'n effeithiol i gyfarfodydd a seminarau yn ei maes gwaith ei hun • Dadlau o blaid / yn erbyn achos 	<ul style="list-style-type: none"> • Darllen a deall gwybodaeth yn eithaf cyflym gyn belled nad oes unrhyw eirfa anghyfarwydd yn cael ei defnyddio ac nad oes unrhyw wybodaeth ofnadwy o gymhleth neu dechnegol ynddo 	<ul style="list-style-type: none"> • Paratoi llythyrau ffurfiol o nifer o fathau cyfarwydd, megis ymholiad, cwyn, ymholiad neu gais • Gwneud nodiadau rhesymol fanwl mewn cyfarfodydd neu arddyweddiad syml • Ysgrifennu adroddiad / dogfen mewn perthynas â'm maes gwaith fy hun, ond bydd angen cael ei wirio gan siaradwr Cymraeg
<p>LEFEL 5 Rhugl</p>	<p>Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynghori / siarad am faterion arferol, anarferol, cymhleth, dadleuol neu sensitif mewn perthynas â'm profiadau fy hun • Gwneud cyflwyniad / arddangos • Ymdrin yn hyderus â chwestiynau annisgwyl neu wrthwynebus • Negodi gan ddefnyddio termau cymhleth / technegol • Rhoi cyfweliadau i'r cyfryngau 	<p>Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall syniadau a gwybodaeth gymhleth wedi'i fynegi mewn iaith gymhleth neu arbenigol mewn dogfennau, adroddiadau, gohebiaeth ac erthyglau, ac ati 	<p>Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu llythyrau ar unrhyw bwnc • Ysgrifennu nodiadau llawn / manwl gywir wrth barhau i ddilyn trafodaethau a chymryd rhan ynddynt • Ysgrifennu adroddiadau / dogfennau yn hyderus er efallai y byddent angen eu gwirio am fan wallau o ran sillafu neu ramadeg

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
------	-------	------------------	-----	----------

Allwedd pennawd: CMG = Coch, Melyn, Gwyrdd.

GWYRDD – Rydym wedi rhoi trefniadau clir ar waith ac maent yn gweithio'n dda yn gyson.

MELYN – Rydym wedi rhoi trefniadau clir ar waith ond nid yw'r rhain eto'n gweithio'n dda yn gyson. Mae arnom angen gwneud mwy i sicrhau cydymffurfiaeth.

COCH - Nid ydym wedi rhoi trefniadau clir ar waith, neu dydy'r trefniadau rydym wedi eu rhoi mewn lle ddim yn gweithio. Mae arnom angen gwneud mwy i sicrhau cydymffurfiaeth, ac efallai y bydd arnom angen cymorth i wneud hyn.

1	Cyflenwi Gwasanaeth	Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg. Rhaid i chi gydymffurfio â safon 1 ymhob amgylchiad ac eithrio: <ul style="list-style-type: none"> Eich bod yn derbyn gohebiaeth gan berson sy'n gweithredu fel cynrychiolydd: Cyngor Iechyd Cymuned; neu Fwrdd Iechyd Addysgu Powys fel yr un sy'n cynnal eich cyfarfod. 		Pob gohebiaeth Gymraeg yn cael ei ymdrin ag o yn Gymraeg. Rhestr o siaradwyr Cymraeg CIC ar gael ar y gyriant cyffredin ynghyd â manylion Cyfieithwyr Cymraeg. Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned wedi recriwtio Cyfieithydd a fydd yn gyfrifol am ymateb i'n gohebiaeth Gymraeg.
2	Cyflenwi Gwasanaeth	Pan fyddwch yn gohebu ag unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyh yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny rhaid		Defnyddir geiriad safonol ar gyfer templedi llythyrau ac e-byst i ofyn a yw pobl yn dymuno gohebu yn Gymraeg.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
		<p>ichi—</p> <p>(a) cadw cofnod o ddymuniad A,</p> <p>(b) gohebu yn Gymraeg ag A wrth ohebu ag A o hynny ymlaen, ac</p> <p>(c) anfon unrhyw ffurflenni y mae A i'w cwblhau o hynny ymlaen yn Gymraeg.</p>		<p>Cofnod wedi ei greu ar gyfer pobl sy'n dymuno gohebu yn Gymraeg.</p> <p>Defnyddir modiwl Cyswllt Datix i gofnodi'r iaith a ddewisir.</p> <p>Pob dogfen a gaiff ei gweld yn allanol, gan gynnwys ffurflenni, ar gael yn Gymraeg a'r Saesneg.</p>

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
3	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at un neu ragor o unigolion sy'n aelodau o'r un aelwyd (er enghraifft, rhieni plentyn) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i'r unigolion hynny a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyich yn Gymraeg, ac os—</p> <p>(a) bydd pob unigolyn yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'u dymuniad, a gohebu yn Gymraeg o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at bob un o'r unigolion hynny;</p> <p>(b) bydd un o'r unigolion (ond nid pob un ohonynt) yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a darparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at bob un o'r unigolion hynny.</p>		Os yw un unigolyn o'u plith yn gofyn am ohebiaeth yn Gymraeg, rhaid i'r ohebiaeth i'r grŵp cyfan gael ei ddarparu yn Gymraeg a'r Saesneg ill dwy. Cofnodir y cais ar y gyriad cyffredin ac ar Datix er mwyn dilyn y trefniadau ar gyfer safon 2 uchod.
4	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 4 ymhob</p>		Mae nifer o randdeiliaid allweddol wedi nodi eu dymuniad, ym mhob amgylchiad, i gyfathrebu yn y Saesneg.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
		<p>amgylchiad ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ pan rydych yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bobl, ac mae pob un o'r personau hynny wedi eich hysbysu nad ydynt yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg; neu ▪ pan rydych yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bobl, ac mae pob un o'r personau hynny yn gweithredu fel cynrychiolydd: ▪ Cyngor Iechyd Cymuned; neu ▪ Fwrdd Iechyd Addysgu Powys fel yr un sy'n cynnal eich cyfarfod. 		<p>Pob deunydd ymgysylltu yn cael ei anfon allan yn Gymraeg a'r Saesneg.</p> <p>Staff i gyd – gwirio'n flynyddol fod yr holl bobl sydd ar restrau dosbarthu, y rhai rydym yn anfon llythyrau, arolygon, newyddlenni, cyhoeddiadau adroddiadau ayyb atynt i gyd wedi nodi eu dewis a bod hyn wedi ei gofnodi.</p>

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
5	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyich yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 5 ymhob amgylchiad ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Eich bod yn gohebu gyda pherson sy'n gweithredu fel cynrychiolydd; • Cyngor Iechyd Cymuned; neu • Fwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y person sy'n cynnal eich cyfarfod. 		Gofynnir i bob cleient pa iaith a ffafrir yn ystod eu cyswllt cyntaf. Yn ychwanegol, mae pob cyfeiriad o asiantaeth allanol yn nodi'r iaith a ffafrir gan y cleient. Mae gohebiaeth gychwynnol yn Gymraeg a'r Saesneg ill dwy.
6	Cyflenwi Gwasanaeth	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg cyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd).		Trefniadau ar waith.
7	Cyflenwi Gwasanaeth	Rhaid ichi ddatgan— (a) mewn gohebiaeth, a (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n gwahodd personau i anfon ymateb		Pob llythyr ac e-bost gyda geiriad safonol sy'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
		<p>neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 7 ymhob amgylchiad ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mewn gohebiaeth, a chyhoeddiadau a hysbysiadau i bersonau sy'n gweithredu fel cynrychiolydd: <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyngor Iechyd Cymuned; neu ▪ Fwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y person sy'n eich cynnal. 		<p>Pob llythyr safonol a thempledi pen llythyr CIC wedi cael eu diweddarau gyda'r eirfa safonol ac mae llofnod e-byst staff yn arddangos y datganiad.</p>
8	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg.</p>		<p>Defnyddir cyfarchion Cymraeg pan atebir y ffôn.</p>
9	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.</p>		<p>Aelodau o'r cyhoedd yn gallu gwasgu opsiwn 2 er mwyn cael mynediad i'r gwasanaeth Cymraeg.</p>

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
10	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny—</p> <p>(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.</p>		<p>Nid oes gennym siaradwr Cymraeg yng Nghyngor Bae Abertawe ar hyn o bryd.</p> <p>Mae Bwrdd y Cyngorau Iechyd Cymuned wedi recriwtio siaradwr Cymraeg a fydd yn cymryd y galwadau ar gyfer ein system ffôn.</p>
11	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		<p>Mae deunyddiau CIC i gyd yn Gymraeg a'r Saesneg ill dwy.</p>
12	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol.</p>		<p>Nid oes gennym siaradwr Cymraeg yng Nghyngor Bae Abertawe ar hyn o bryd.</p> <p>Mae Bwrdd y Cyngorau Iechyd Cymuned wedi recriwtio siaradwr Cymraeg a fydd yn cymryd y galwadau ar gyfer ein system ffôn.</p>
13	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau,</p>		<p>Mae pob dogfennaeth CIC i gyd yn Gymraeg a'r Saesneg ill dwy.</p>

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
		rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.		
14	Cyflenwi Gwasanaeth	Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.		Nid oes gennym ddangosyddion perfformiad. Caiff pob galwad ei ateb gyda chyfarchiad dwyieithog.
15	Cyflenwi Gwasanaeth	Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg.		Mae gennyn ni system ffôn ddwyieithog sy'n ein galluogi i ateb yn Gymraeg a rhoi gwybod i bersonau y gallent adael neges yn Gymraeg.
16	Cyflenwi Gwasanaeth	Pan nad oes gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r personau sy'n galw, yn Gymraeg (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.		Mae ein neges wedi ei hawtomeiddio yn rhoi gwybod i bersonau y bydd aelod o staff yn cysylltu â hwy cyn gynted a bo modd ar gyfer pob neges a gaiff ei gadael yn Gymraeg a Saesneg ill dwy.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
17	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg—</p> <p>(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.</p>		Dyma'r ymarfer cyfredol
18	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person.</p>		Mae gennym system ffôn ar gyfer y swyddfa ac mae'r staff i gyd yn cyfarch yn Gymraeg a'r Saesneg ill dwy.
19	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthyh yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn Gymraeg.</p>		Cofnodir yr iaith a ffafrir ar daenlen wedi'i arbed ar y gyriant cyffredin.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
				Defnyddir Modiwl Manylion Cyswllt Datix i gofnodi dewis iaith cleient. Cedwir cyswllt ar gyfer Language Line a rhestr o staff CIC sy'n siarad Cymraeg ar y gyriant cyffredin.
20	Cyflenwi Gwasanaeth	Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.		System ffôn gyfredol gyda gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.
21	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod—</p> <p>(a) rhaid ichi ofyn i P a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw, a</p> <p>(b) os yw P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 21 ymhob</p>		<p>Defnyddir cofnod canolog o'r iaith y mae person(au) yn ei ffafrio ar gyfer cyfarfodydd.</p> <p>Pennir ar y dechrau os yw cleient yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg yn unig. Cyfeirir cleientiaid sy'n dymuno cyfathrebu yn gyfan gwbl yn Gymraeg at Eiriolwyr CIC sy'n rhugl Gymraeg.</p>

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
		<p>amgylchiad ac eithrio:</p> <p>Eich bod yn gwahodd person i gyfarfod sy'n gweithredu fel cynrychiolydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Iechyd Cymuned; neu • Fwrdd Iechyd Addysgu Powys fel yr un sy'n cynnal eich cyfarfod. 		
22	Cyflenw i Gwasanaeth	<p>Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 22 ymhob amgylchiad ac eithrio:</p> <p>Eich bod yn gwahodd person i gyfarfod sy'n gweithredu fel cynrychiolydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Iechyd Cymuned; neu • Fwrdd Iechyd Addysgu Powys fel yr un sy'n cynnal eich cyfarfod 		Defnyddir cofnod canolog o'r iaith a ffafirir gan berson(au) ar gyfer cyfarfodydd.
22A	Cyflenw i Gwasanaeth	<p>Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd</p>		Defnyddir cofnod canolog o'r iaith a ffafirir gan berson(au) ar gyfer cyfarfodydd.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
		<p>neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 22A ymhob amgylchiad ac eithrio:</p> <p style="padding-left: 40px;">Eich bod yn gwahodd person i gyfarfod sy'n gweithredu fel cynrychiolydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Iechyd Cymuned; neu • Fwrdd Iechyd Addysgu Powys fel yr un sy'n cynnal eich cyfarfod 		<p>Bydd angen 1 wythnos o rybudd arnom cyn cyfarfod er mwyn caniatáu amser i ni drefnu ar gyfer gwasanaeth cyfieithu.</p> <p>Yn flaenorol nid oeddem yn gallu cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, fodd bynnag, mae Microsoft Teams bellach yn gallu hwyluso cyfarfodydd gyda chyfieithu.</p>
22C H	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod pob un o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg, neu os bydd angen, trefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 22CH ymhob amgylchiad ac eithrio:</p> <p style="padding-left: 40px;">Eich bod yn gwahodd person i gyfarfod sy'n gweithredu fel cynrychiolydd:</p>		<p>Defnyddir cofnod canolog o'r iaith a ffafrir gan berson(au) ar gyfer cyfarfodydd.</p> <p>Bydd angen 1 wythnos o rybudd arnom cyn cyfarfod er mwyn gadael amser i ni drefnu gwasanaeth cyfieithu.</p> <p>Yn flaenorol nid oeddem yn gallu cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, fodd bynnag, mae Microsoft Teams bellach yn gallu hwyluso cyfarfodydd gyda chyfieithu.</p>

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
		<ul style="list-style-type: none"> Cyngor Iechyd Cymuned; neu Fwrdd Iechyd Addysgu Powys fel yr un sy'n cynnal eich cyfarfod 		
26	Cyflenwi Gwasanaeth	Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad y cyhoedd ynddo, rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.		Cynhelir cyfarfodydd yn gyhoeddus ond nid ydynt yn gyfarfodydd cyhoeddus, felly ni chaiff aelodau'r cyhoedd gyfranogi.
27	Cyflenwi Gwasanaeth	Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad y cyhoedd ynddo, rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg.		Mae pob dogfen a gohebiaeth a gaiff eu gweld yn allanol yn Gymraeg a Saesneg.
28	Cyflenwi Gwasanaeth	Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad y cyhoedd ynddo, rhaid ichi— (a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a (b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth		Dylid cael gwybod dewis iaith siaradwyr gwadd cyn y cyfarfod er mwyn darparu ar gyfer hyn.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
		cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (oni bai eich bod yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).		
29	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad y cyhoedd ynddo, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg—</p> <p>(a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.</p>		<p>Gofynnir i aelodau'r cyhoedd roi gwybod i'r CIC os ydynt angen gwasanaethau cyfieithu 7 niwrnod cyn dyddiad y cyfarfod.</p> <p>Rydym yn sicrhau bod Cadeirydd y cyfarfod yn rhoi gwybod i'r rheini sy'n bresennol fod croeso iddynt siarad yn Gymraeg ac y bydd cyfieithu ar y pryd ar gael pan roddir gwybod i ni 7 diwrnod ymlaen llaw.</p>
30	Cyflenwi Gwasanaeth	Os byddwch yn llunio ac yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.		<p>Arddangosir agenda cyfarfodydd yn Gymraeg a Saesneg ar ein gwefan. Mae pob deunydd a arddangosir mewn cyfarfodydd yn Gymraeg a'r Saesneg ill dwy – oni bai am bapurau cyfarfodydd.</p> <p>Gwahoddir aelodau o'r cyhoedd i wneud cais am bapurau cyfarfodydd yn Gymraeg neu' Saesneg 7 diwrnod ymlaen llaw.</p>

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
31	Cyflenwi Gwasanaeth	Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad).		<p>Mae deunyddiau pob digwyddiad yn Gymraeg a'r Saesneg ill dwy - posteri, pamffledi, baneri ac arolygon.</p> <p>Mae hyn hefyd yn cynnwys y cyfryngau cymdeithasol; hyrwyddir digwyddiadau yn Gymraeg a Saesneg.</p>
32	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion yr ydych yn eu llunio ac yn eu harddangos yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 32 ym mhob achos, oni bai am wasanaethau wyneb yn wyneb a gynigir yn y digwyddiad.</p> <p>Mewn perthynas â gwasanaethau wyneb yn wyneb a gynigir yn y digwyddiad, rhai i chi gydymffurfio</p>		<p>Mae ein deunyddiau ymgysylltu gan gynnwys arwyddion, posteri ac arolygon i gyd yn Gymraeg a Saesneg ill dwy.</p> <p>Mae gennym un aelod sy'n siaradwr Cymraeg yr ydym yn ei ddefnyddio i ymgysylltu gyda siaradwyr Cymraeg pryd bynnag y mae ar gael.</p> <p>Rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i recriwtio mwy o aelodau sy'n siarad Cymraeg.</p>

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
		<p>ym mhob achos, oni bai:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ile mae'n angenrheidiol fod cynrychiolydd nad yw'n siarad Cymraeg yn darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; ac nad oes cynrychiolydd sy'n siarad Cymraeg yn gallu darparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. 		
33	Cyflenwi Gwasanaeth	Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.		Caiff pob deunydd a gaiff ei weld gan y cyhoedd ei gynhyrchu'n ddwyieithog yn ôl yr arfer.
34	Cyflenwi Gwasanaeth	Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei lunio ac yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.		Caiff pob deunydd a gaiff ei weld gan y cyhoedd ei gynhyrchu'n ddwyieithog yn ôl yr arfer.
36	Cyflenwi Gwasanaeth	Os byddwch yn llunio ffurflen sydd i gael ei chwblhau gan unigolyn, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg.		Mae pob ffurflen y mae CIC BA yn ei defnyddio yn ddwyieithog.
37	Cyflenwi Gwasanaeth	Os byddwch yn llunio dogfen (ond nid ffurflen) sydd ar gael i un neu ragor o unigolion, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg—		Caiff pob deunydd a gaiff ei weld gan y cyhoedd ei gynhyrchu'n ddwyieithog yn ôl yr arfer.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
		(a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu (b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg.		
38	Cyflenwi Gwasanaeth	Os byddwch yn llunio dogfen neu ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi— (a) peidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (pa un a ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio); (b) peidio â gwahaniaethu rhwng y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg mewn perthynas ag unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ddogfen neu'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen,		Caiff pob deunydd a gaiff ei weld gan y cyhoedd ei gynhyrchu'n ddwyieithog yn ôl yr arfer heb ddim gwahaniaethu rhwng y fersiynau.
39	Cyflenwi Gwasanaeth	Rhaid ichi sicrhau— (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.		Mae pob tudalen o'n gwefan ar gael yn Gymraeg a'r Saesneg - mae'r ddwy dudalen yn cyfateb i'w gilydd.
42	Cyflenwi Gwasanaeth	Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi ddatgan yn glir ar y dudalen Saesneg fod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid ichi ddarparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen		Nodir hyn ar dudalennau ein gwefan.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
		Saesneg cyfatebol.		
43	Cyflenwi Gwasanaeth	Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.		Mae'r dewislenni Saesneg a Chymraeg yn cyfateb i'w gilydd.
44	Cyflenwi Gwasanaeth	Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw.		Mae ap Text local yn gweithio'n llawn yn Gymraeg
45	Cyflenwi Gwasanaeth	Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid cydymffurfio gyda safon 45 dan yn yr achosion canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ar eich cyfrifon corfforaethol ac adrannol. 		Mae pob trydariad yn cael ei gyhoeddi yn ddwyieithog oni bai nad oes unrhyw siaradwr Cymraeg mewn digwyddiad.
46	Cyflenwi Gwasanaeth	Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn		Mae rhestr manylion cyswllt siaradwyr Cymraeg CIC wedi ei lunio ac ar gael ar y

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
	eth	Gymraeg (os oes angen ateb).		gyriant cyffredin. Er nad oes unrhyw gyfathrebiad Cymraeg wedi ei dderbyn hyd yma, mae staff yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer ymdrin â'r fath gyfathrebiad.
47	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Pan fyddwch—</p> <p>(a) yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu</p> <p>(b) yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad; rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd neu'r hysbysiad gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd neu hysbysiad sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd neu hysbysiad ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.</p>		Mae pob arwydd yn ddwyieithog ac yn cyfateb i'w gilydd.
48	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Pan fyddwch—</p> <p>(a) yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu</p> <p>(b) yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad; sy'n cyfleu'r un wybodaeth yn Gymraeg ac yn</p>		<p>Cymraeg gaiff ei harddangos gyntaf/ar yr ochr chwith yn ôl yr arfer fel ei bod yn debygol o gael ei darllen yn gyntaf.</p> <p>Mae negeseuon ar gyfryngau</p>

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
		Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.		cymdeithasol hefyd yn ddwyieithog.
49	Cyflenwi Gwasanaeth	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a hysbysiadau yn gywir o ran ystyr a mynegiant.		Caiff unrhyw arwyddion neu hysbysiadau eu cyfieithu gan gyfieithydd proffesiynol.
57	Cyflenwi Gwasanaeth	Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg os yw pwnc y contract yn awgrymu y dylai gael ei lunio yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.		Ni chyhoeddwyd gwahoddiadau i dendro ers cyflwyno Safonau'r Gymraeg. Pan fo gwahoddiadau i dendro (ITTs) yn cael eu cynhyrchu, byddwn yn cydweithredu gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG i gwrdd â'r safon hwn.
58	Cyflenwi Gwasanaeth	Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi— (a) datgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg, a (b) peidio â thrin tendr am gontract a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg materion eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael		Ni chyhoeddwyd gwahoddiadau i dendro ers cyflwyno Safonau'r Gymraeg. Pan fo gwahoddiadau i dendro (ITTs) yn cael eu cynhyrchu, byddwn yn cydweithredu â Phartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG i gwrdd â'r safon hwn.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
		tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i rai sy'n tendro am benderfyniadau).		
59	Cyflenwi Gwasanaeth	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i sawl sy'n tendro beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg.		Ni chyhoeddwyd gwahoddiadau i dendro ers cyflwyno Safonau'r Gymraeg. Lle mae gwahoddiadau i dendro (ITTs) yn cael eu cynhyrchu, byddwn yn cydweithredu gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG i gwrdd â'r safon hwn.
60	Cyflenwi Gwasanaeth	Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.		Caiff pob un o'n gwasanaethau eu hysbysebu'n Ddwyieithog ar ein gwefan. Rydym yn cynghori ein bod yn cynnig gwasanaethau cyfyngedig yn Gymraeg gan nad oes gennym unrhyw staff sy'n siaradwyr Cymraeg ond rydym yn parhau i gynnig cyfleoedd hyfforddi i staff.
61	Cyflenwi Gwasanaeth	Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.		Holl ddogfennau cyhoeddusrwydd a'r wefan yn nodi ein gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg. Rydym yn cynghori ein bod yn cynnig gwasanaethau cyfyngedig yn Gymraeg gan nad oes gennym unrhyw staff sy'n siaradwyr Cymraeg ond rydym yn parhau i gynnig cyfleoedd hyfforddi i staff.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
62	Cyflenwi Gwasanaeth	Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.		Hunaniaeth gorfforaethol eisoes yn cwrdd â'r safon hwn.
63	Cyflenwi Gwasanaeth	Os byddwch yn cynnig cwrs addysg i un neu ragor o unigolion, rhaid ichi— (a) cynnal asesiad o'r angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; (b) cynnig y cwrs hwnnw yn Gymraeg os dangosodd yr asesiad fod angen i'r cwrs gael ei gynnig yn Gymraeg.		Aelodau a staff wedi nodi eu dewis o unai Cymraeg neu Saesneg. Ar hyn o bryd maent i gyd wedi nodi eu bod yn ffafrio Saesneg. O ganlyniad darperir cyrsiau/hyfforddiant mewnol ac allanol yn Saesneg.
69	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheiny'n gadarnhaol neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.		Cafodd templed ein hasesiad effaith ar gydraddoldeb ei adolygu i gynnwys cyfeiriad penodol at y Gymraeg. Asesir polisiau a lunnir gan y Bwrdd ar gyfer effaith ar gydraddoldeb gan gynnwys effaith ar siaradwyr Cymraeg.
70	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r		Cafodd templed ein hasesiad effaith ar gydraddoldeb ei adolygu i gynnwys cyfeiriad penodol at y Gymraeg.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
		<p>penderyniad polisi'n cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		<p>Mae dadansoddiad yn cael ei gynnwys fel mater o arfer o fewn polisiau newydd/wedi'i hadolygu a gyflwynir i'n Pwyllgor Gweithredol.</p>

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
71	Llunio Polisi	<p>Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		<p>Mae ein templed asesiad effaith ar gydraddoldeb wedi ei adolygu i gynnwys cyfeiriad penodol at y Gymraeg.</p> <p>Mae dadansoddiad yn cael ei gynnwys fel mater o arfer o fewn polisiau newydd/ wedi'i adolygu a gyflwynir i'r bwrdd (neu ei bwyllgorau).</p>
72	Llunio Polisi	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheiny'n gadarnhaol neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		<p>Nid ydym wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi ers cyflwyno'r safonau.</p>

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
73	Llunio Polisi	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth er mwyn iddi gael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		Nid ydym wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi ers cyflwyno'r safonau.
74	Llunio Polisi	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		Nid ydym wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi ers cyflwyno'r safonau.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
75	Llunio Polisi	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir iddo eich cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai cadarnhaol neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		Nid ydym wedi gwneud unrhyw ymchwil sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi ers cyflwyno'r safonau.
76	Llunio Polisi	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		Nid ydym wedi gwneud unrhyw ymchwil sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi ers cyflwyno'r safonau.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
77	Llunio Polisi	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		Nid ydym wedi gwneud unrhyw ymchwil sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi ers cyflwyno'r safonau.
79	Gweithredu	Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.		Rydym wedi datblygu a dosbarthu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Mae hwn bellach angen ei adolygu yn dilyn adolygiad gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg o hysbysiadau cydymffurfio'r Bwrdd a 6 o'r 7 Cyngor Iechyd Cymuned.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
82	Gweithred u	Os byddwch yn cyhoeddi unrhyw un neu ragor o'r canlynol, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg— (a) polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle; (b) polisi ynghylch iechyd a lles yn y gwaith; (c) polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle; (ch) polisi ynghylch rheoli perfformiad; (d) polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith; (dd) polisi ynghylch amodau gwaith; (e) polisi ynghylch patrymau gwaith.		Mae'r Bwrdd wedi cynhyrchu a chyflwyno amrywiaeth fechan o gyfarwyddyd polisi ar gyfer staff ac aelodau CIC, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ymddygiad mewn cyfarfodydd cynrychioli'r Cynghorau Iechyd Cymuned mewn cyfarfodydd allanol iechyd a diogelwch <p>Mae pob dogfen wedi ei chynhyrchu yn ddwyieithog ac ar gael ar ein gwefan.</p>
83	Gweithred u	Rhaid ichi ganiatáu a datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff— (a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg; a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno.		Mae polisiau a gweithdrefnau BIA Powys yn berthnasol. Mae polisi cwynion y Bwrdd a'r Cynghorau Iechyd Cymuned wedi ei ddiweddarau i gynnwys cyfeiriad penodol at hawl aelod o staff i ymateb i gŵyn yn Gymraeg.
84	Gweithred u	Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi—		Nid oes ceisiadau wedi ei gwneud gan staff, fodd bynnag, pe derbynnid cais o'r fath gellid hwyluso hyn.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
		<p>(a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, ddarparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw; a</p> <p>(b) os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, gyda chymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg.</p>		
85	Gweithred u	<p>Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff ("A") beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chwyn a wneir ganddo, neu mewn perthynas â chwyn a wneir amdano, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw A—</p> <p>(a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg, (b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef, (c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn.</p>		Nid oes ceisiadau wedi ei gwneud gan staff, fodd bynnag, pe derbynnid cais o'r fath gellid hwyluso hyn.

HUNAN-AESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
86	Gweithred u	<p>Rhaid ichi—</p> <p>(a) caniatáu a datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a</p> <p>(b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno.</p>		<p>Mae polisïau a gweithdrefnau BIA Powys yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer disgyblu staff.</p> <p>Ni ymdriniwyd ag achosion o'r fath ers cyflwyno'r safonau.</p>
87	Gweithred u	<p>Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi—</p> <p>(a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, ddarparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw; a</p> <p>(b) os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, neu os oes angen, gyda chymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg.</p>		<p>Ni ymdriniwyd ag achosion o'r fath ers cyflwyno'r safonau.</p>
88	Gweithred u	<p>Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff ("A") beth yw'ch penderfyniad yn dilyn gweithdrefn ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw A—</p> <p>(a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg,</p> <p>(b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r weithdrefn</p>		<p>Ni ymdriniwyd ag achosion o'r fath ers cyflwyno'r safonau.</p>

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
		ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r weithdrefn ddisgyblu.		
89	Gweithred u	Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebaw Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).		Mae'r feddalwedd hwn ar gael gliniaduron y staff i gyd.
97	Gweithred u	Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i gael hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg— (a) recriwtio a chyfweld; (b) rheoli perfformiad; (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu; (ch) ymsefydlu; (d) delio â'r cyhoedd; ac (dd) iechyd a diogelwch.		Mae BIA Powys yn darparu cyfleoedd i staff. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant i aelodau newydd Annibynnol. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gyd-gysylltu gyda'r Cynghorau Iechyd Cymuned ar ddarparu'r hyfforddiant 2 ddiwrnod datblygu aelodau ar gyfer aelodau CIC - gan gynnwys unrhyw anghenion Cymraeg.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
98	Gweithred u	<p>Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i gael hyfforddiant yn Gymraeg ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn—</p> <p>(a) cyfarfodydd; (b) cyfweiliadau; ac (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu.</p>		<p>Mae BIA Powys yn darparu cyfleoedd i staff. Yn ychwanegol, mae cyfleoedd am hyfforddiant wedi ei ddarparu gan ddarparwyr allanol yn cael: eu dosbarthu i aelodau bwrdd a staff swyddfa bwrdd</p> <p>Blaenyrru i Gynghorau Iechyd Cymuned i'w dosbarthu i staff ac aelodau CIC.</p>
104	Gweithred u	<p>Rhaid ichi ddarparu—</p> <p>(a) geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith, a (b) geiriad ar gyfer eich cyflogeion a fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-bost, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon e-bost.</p> <p>Rhaid ichi gydymffurfio â safon 104, oni bai:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Rhan (b) – darparu geiriau Cymraeg ar gyfer <p>(b) manylion cysylltu eich staff ac i hysbysu eraill</p>		Ymarfer cyfredol.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
		nad ydynt ar gael i ymateb i negeseuon ebost.		
105	Gweithred u	<p>Rhaid ichi—</p> <p>(a) Sicrhau bod bathodyn ar gael i aelodau staff sy'n gallu siarad Cymraeg ei wisgo sy'n cyfleu hynny; a</p> <p>(b) hybu gwisgo'r bathodyn ymhlith aelodau'r staff.</p>		Bathodynnau ar gael ond does gennym ddim siaradwyr Cymraeg.
111	Gweithred u	<p>Pan fyddwch—</p> <p>(a) yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu</p> <p>(b) yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad yn eich gweithle;</p> <p>rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd neu'r hysbysiad gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd neu hysbysiad sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd neu hysbysiad ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.</p>		Pob arwydd yn ddwyieithog gyda Chymraeg yn gyntaf.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
112	Gweithred u	Pan fyddwch— (a) yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu (b) yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad; a bod yr arwydd neu'r hysbysiad hwnnw'n cyfleu'r un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.		Fel yr uchod.
113	Gweithred u	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a hysbysïadau a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant.		Pob arwydd testun Cymraeg yn cael ei gyfieithu gan gyfieithydd i sicrhau ei fod yn gywir o ran ystyr a mynegiant.
115	Cadw cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfiad â'r safonau.		Ni dderbyniwyd cwynion hyd yma mewn perthynas â chydymffurfiaeth y Bwrdd â'r safonau.
118	Materion Atodol	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael ar eich gwefan.		Cyhoeddwyd dolen i'n hysbysiad cydymffurfio ar wefan Comisiynydd y Gymraeg ar ein gwefan ni.
119	Materion Atodol	Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â sut yr ydych yn bwriadu ymdrin â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfiad â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno		Cafodd gweithdrefn cwynion y Cynghorau Iechyd Cymuned ei diweddarau ac mae hyn wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan.

HUNAN-AESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
		ar eich gwefan.		
120	Materion Atodol	<p>1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt)—</p> <p>(a) nifer y cwynion a gawsoch yn y flwyddyn dan sylw a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 115);</p> <p>(b) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 116);</p> <p>(c) nifer (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 117) y swyddi newydd a'r swyddi gwag a</p>		Cynhyrchwyd yr adroddiad blynyddol eleni.

HUNAN-ASESIAD CYDYMFFURFIAETH SAFONAU'R GYMRAEG 22-23 CIC Bae Abertawe

Rhif	Thema	Manylion y Safon	CMG	Sylwadau
		<p>hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn—</p> <p>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;</p> <p>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd;</p> <p>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu</p> <p>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael ar eich gwefan</p>		
121	Materion Atodol	<p>Rhaid ichi ddarparu i Gomisiynydd y Gymraeg (os gofynnir ganddo) unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, y safonau llunio polisi neu'r safonau gweithredol yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p>		Ymatebwyd i bob cais am wybodaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd yn amserol.